AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

PANEL YMWELD Y GOGLEDD, 11 MAWRTH 2020

NP2/14/18D – CAIS ÔL-WEITHREDOL RHANNOL I GADW ESTYNIAD OCHR DEULAWR A BWRIAD ARFAETHEDIG I DDYMCHWEL ESTYNIAD TO FFLAT UN LLAWR - NANT CWMBRAN ISAF, NASARETH.

PRESENNOL	Cynghorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Edgar Owen, Judith Mary Humphreys, Mr. Owain Wyn.
YMDDIHEURIADAU	Cynghorwyr Wyn Elis-Jones, Phil Capper, Ifor Glyn Lloyd, Ms. Tracey Evans.
DDIM YN BRESENNOL	Mr. Neil Martinson.
SWYDDOGION YN BRESENNOL	Jonathan Cawley (Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir) Jane Jones (Rheolwr Cynllunio) Geraint Evans (Uwch Swyddog Cynllunio Dros Dro (Polisi).
ADRODDWYD	Pwrpas y Panel oedd: 1. Gweld y cynnig i asesu dyluniad ac effaith yr estyniad. 2. Asesu'r cynnig yn erbyn Polisi perthnasol CDLlE. 3. Adroddodd swyddogion fod gan Bolisi Datblygu 15: Estyniadau, dri maen prawf y mae'n rhaid eu bodloni. 4. Ni fodlonwyd y meini prawf cyntaf, sef bod yr ôl troed yn llai a'r uchder yn is na'r annedd wreiddiol. 5. Ni fodlonwyd yr ail feini prawf, ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau dylunio'r Awdurdod ar estyniadau. 6. O ran y trydydd maen prawf, mae Swyddogion o'r farn bod y cynnig yn tynnu oddi ar yr annedd a chymeriad yr amgylchoedd lle y'i lleolir 7. Tynnwyd sylw at y ffaith bod goleddf to'r estyniad yn uwch na'r tŷ gwreiddiol ar y drychiad blaen a bod yr estyniad yn hirach ac yn ehangach na'r tŷ gwreiddiol. 8. Nid oes gan y ffenestri batrwm cyson a chyfartal, gyda gwahanol feintiau a siapiau. Mae'r patrwm yn anghyson â ffenestri'r tŷ gwreiddiol gyda phwyslais fertigol. 9. Ni ddyluniwyd yr estyniad i fod yn gydymdeimladol â'r tŷ gwreiddiol ac nid yw'n ychwanegu at ei gymeriad. 10. Mae'r estyniad bellach yn ymddangos fel prif elfen yr adeilad, yn dominyddu'r tŷ gwreiddiol, sydd i'r gwrthwyneb i nod Polisi 15.

11. Nid yw'r tŷ gwreiddiol na'r estyniad yn gytbwys oherwydd ei ffurf anarferol a'i raddfa sylweddol.
12. Mae dyluniad yr estyniad yn anghyson â'r tŷ gwreiddiol ac nid yw'n cadw ei nodweddion traddodiadol.
14. Nid yw cais Rheoliadau Adeiladu wedi ei gyflwyno eto.
15. Mae gan yr estyniad a gymeradwywyd yn 2012 ôl troed o 38m2. Mae gan yr estyniad fel y'i hadeiladwyd ôl troed o 87m2.
16. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth na sylwadau pellach ers y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar 4 Mawrth 2020.

TRAFODAETH

- Edrychodd yr aelodau ar yr estyniad o'r safle ac o'r ffordd gan fynd tua'r gogledd tuag at Nebo. Tynnodd y swyddog achos sylw'r aelodau at y materion allweddol sy'n berthnasol i'w adroddiad
- a nododd yr Aelodau'r rhain. Nodwyd hefyd bod yr estyniad i'w weld o'r priffyrdd i'r de a'r gorllewin, er nad yw'n weladwy o'r A487.

CASGLIAD

- Nododd yr aelodau y materion allweddol sy'n ymwneud ag adroddiad y swyddog, yn enwedig o ran sut mae'n groes i Bolisi Datblygu 15.
- Mae'r safle i'w weld o'r ffyrdd i'r gogledd a'r de, ond nid o'r A487.
- Aelod o'r Panel i drafod ymhellach yn y Pwyllgor Cynllunio nesaf.